# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | LESLEY WALTON | Adran Etholiadol: | TOWNHILL |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Ymdriniais â llawer o faterion gwaith achos wrth iddynt godi ac, wrth wneud hynny, roeddwn mewn cysylltiad agos â swyddogion tai rhanbarthol Townhill a grwpiau cymunedol lle y bo'n berthnasol.

Fel ffordd arall o roi cyfle i breswylwyr godi mater, ac fel aelod o'r tîm o gynghorwyr Llafur yn Townhill, cynhaliais fy nghymhorthfa fisol yng Nghaffi'r Ffenics. Hefyd, euthum i gyfarfodydd PACT bob yn ail fis a gynhaliwyd yng nghanolfannau cymunedol yr ardal, galw mewn ar y rhai a gynhaliwyd yn Nhŷ TOPIC - roedd grwpiau amrywiol i bobl hŷn yn mynd i'r rhain, gan gynnwys Preswylwyr Townhill - ac euthum i gyfarfodydd PACT cymunedol teithiol a gynhaliwyd ar y stryd mewn lleoliadau amrywiol ar draws y ward. Rwyf hefyd wedi cynnal cymorthfeydd stryd, gan guro ar ddrysau i weld a allaf helpu o gwbl.

Roeddwn yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gymunedol Seaview ac yn mynd i gyfarfodydd llawn ac yn gwasanaethu ar yr is-bwyllgorau cyllid a rheoli perfformiad, ymysg eraill. Y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, rwyf wedi gweithio'n agos gydag Undeb Credyd LASA er mwyn sefydlu man casglu i ddisgyblion ei reoli eu hunain. Hefyd, rhoddais fy nghefnogaeth mewn ffyrdd eraill, megis rhoi planhigion ar gyfer eu man tyfu cymunedol.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 6 | / | 11 | 55 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 7 | / | 12 | 58 | % |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 4 | / | 5 | 80 | % |
| CYFFREDINOL | 53 | / | 75 | 71 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Yn ychwanegol at bwyllgorau'r cyngor, rwyf wedi mynd i gyfarfodydd ar gyrff allanol amrywiol:

<u>Clwstwr y Gorllewin Cymunedau'n Gyntaf</u> ar y Grŵp Llywio, Fforwm Aelodau Ward a Fforwm Cymunedol, rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned i helpu'r rhai dan yr anfantais fwyaf

Mae <u>Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol yr Hill</u> yn darparu cyfleusterau i'r gymuned leol ddefnyddio Canolfan y Ffenics.

<u>Pwyllgor Canolfan Gymunedol Townhill</u> sy'n gweinyddu'r holl weithgareddau a gynhelir yn y ganolfan.

Hefyd, euthum i'r cyfarfodydd craffu canlynol:
Panel Ymchwilio Cynnwys y Cyhoedd: parhaol ers mis Medi 2013
Gweithgor Tai Fforddiadwy: Dydd Mercher 12 Chwefror 2014
Cynhadledd Craffu a Chynaladwyedd: Dydd Llun 10 Mawrth 2014

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel un o'r tîm o gynghorwyr Llafur, helpais i fynd i'r afael â baw cŵn trwy drefnu gosod nifer o finiau baw cŵn newydd yn strategol yn y ward. Defnyddiais rywfaint o'n harian amgylcheddol i gyfrannu at estyniad Tŷ TOPIC ac ymatebais i geisiadau preswylwyr i drefnu cael gwared ar rai gorchmynion cau ffyrdd yn ardal Mayhill.

Yn dilyn y gwaith a wnaed ar y Pwyllgor Cydraddoldeb yr oeddwn ac rwyf o hyd yn aelod ohono, helpais i ddechrau trefnu bod hysbysiadau cam-drin yn y cartref yn nhoiledau adeiladau'r cyngor, e.e. Canolfan Ddinesig, Neuadd y Ddinas etc., a hefyd mewn siopau, tafarnau, clybiau a ddefnyddir gan y cyhoedd ar draws Abertawe.

Rwyf wedi cymryd rhan weithgar iawn wrth ymgyrchu yn erbyn cwmnïau benthyca diwrnod talu, gan fod ar y grŵp craffu parhaol ac yn aelod o ymgyrch Credyd Teg Bae Abertawe.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

05/03/2014 - Gwneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i gynghorwyr
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Mae bod yn gyn-athro wedi fy helpu i fod yn llywodraethwr ysgol mwy effeithiol. Hefyd, gan fy mod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant i weithio i Cyngor Ar Bopeth, mae hyn wedi fy helpu i ymdrin â gwaith achos etholwyr yn fwy sensitif ac effeithiol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel un o'r tîm o gynghorwyr Llafur, rwyf wedi helpu i roi gwybod i'r preswylwyr am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y ward trwy lunio cylchlythyr rheolaidd. Yn yr un modd, roeddwn ac rwyf o hyd yn awyddus iawn i sicrhau fy mod yn mynd yn ôl at etholwr ar ôl ymdrin â'r mater a godwyd. Rwy'n gwneud hynny hyd yn oed os nad yw'r canlyniad yn rhoi'r ateb a ddymunir, gan fy mod o leiaf yn gallu esbonio'r rheswm am hyn.

Rwy'n falch fy mod wedi datrys rhai materion ymarferol yn y ward, megis trefnu polyn lamp yn Lôn y Tŵr ac, yn unol â chais Canolfan Gymunedol Townhill, drefnu codi ffens rhwng ei hadeilad a Chaban y Sgowtiaid i leddfu problem ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hefyd, wrth gefnogi pobl mewn angen yn y ddinas, rwyf wedi dechrau man casglu yn ystafell y grŵp Llafur i drosglwyddo nwyddau i un o gronfeydd bwyd Abertawe.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30.5.14 |